# CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mai 2011 (3:00pm)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams - Cadeirydd<br>Y Cynghorydd G. O. Jones - Is-Gadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, E. G. Davies, Lewis Davies, R. Anthony Dew, B. Durkin, Jim Evans, C. Ll. Everett, D. R. Hughes, Ff. M. Hughes, K. P. Hughes, R. Ll. Hughes, T. Ll. Hughes, W. I. Hughes, W. T. Hughes, Aled M Jones, Eric Jones, H. Eifion Jones, O. Glyn Jones, Raymond Jones, R. Dylan Jones, T. H. Jones, C. McGregor, Bryan Owen, J. V. Owen, R. L. Owen, Bob Parry OBE, G. O. Parry MBE, Eric Roberts, G. W. Roberts OBE, J. Arwel Roberts, P. S. Rogers, E. Schofield, H. W. Thomas, Ieuan Williams, J. P. Williams, S. Williams. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr Dros Dro<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor<br>Swyddog Cyfathrebu |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Mri. Alex Aldridge, Margaret Foster, Mick Giannasi a Gareth Jones (Comisiynwyr) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr K. Evans, Rhian Medi, Mr. Byron Davies - Comisiynydd |

---

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd R. Ll. Hughes

**1 CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Gwilym O. Jones yn Gadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn am 2011/12.**

Wrth dderbyn yr anrhydedd o gael ei benodi, fe addawodd i'r Cyngor y byddai'n ymgymryd â'i holl ddyletswyddau hyd eithaf ei allu. Cymerodd y Cynghorydd Jones y cyfle hefyd i dalu teyrnged i'r Cadeirydd oedd yn ymddeol, y Cynghorydd Selwyn Williams am ei ymrwymiad yn cynrychioli'r Cyngor Sir yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

Diolchodd y Cynghorydd Selwyn Williams, fel y Cadeirydd oedd yn ymddeol, i'r holl aelodau a swyddogion y Cyngor am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod ei dymor yn y swydd. Rhoddodd grynodeb o'i ddyletswyddau fel Cadeirydd gyda hynny'n golygu cynrychioli'r Cyngor Sir mewn gwahanol weithgareddau trwy gydol y flwyddyn. Mynegodd ei ddymuniadau gorau i'r Cynghorydd Jones gan obeithio y byddai yntau hefyd yn mwynhau tymor hapus a llwyddiannus iawn yn ei swydd.

Cymerodd Arweinydd y Cyngor ac Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol y cyfle i longyfarch y Cynghorydd G. O. Jones ar yr anrhydedd o gael ei benodi'n Gadeirydd y Cyngor Sir.

**2 IS-GADEIRYDD**

Cafwyd cynnig a'i eilio bod enw'r Cynghorydd E. G. Davies yn cael ei roi ymlaen am swydd Is-Gadeirydd y Cyngor Sir. Cafwyd cynnig arall a'i eilio bod enw'r Cynghorydd R. Ll. Jones yn cael ei roi ymlaen i'w ystyried.

O dan ddarpariaethau Rheol 18.5 y Cyngor, cymerwyd pleidlais wedi'i chofnodi ar ethol yr Is-Gadeirydd.

**O blaid y Cynghorydd E. G. Davies:** Y Cynghorwyr E. G. Davies, Lewis Davies, R. Dew, Ff. M. Hughes, R. Ll. Hughes, T. Ll. Hughes, W. I. Hughes, H. E. Jones, Tom Jones, C. McGregor, R. G. Parry OBE, Penri Williams, Ieuan Williams, Selwyn Williams **Cyfanswm: 14**

**O blaid y Cynghorydd R. Ll. Jones:** Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, B. Durkin, J. Evans, C. L. Everett, D. R. Hughes, K. P. Hughes, W. T. Hughes, A. Morris Jones, Eric Jones, O. Glyn Jones, R. Dylan Jones, Raymond Jones, R. Ll. Jones, Bryan Owen, J. V. Owen, R. L. Owen, G. O. Parry MBE, Eric Roberts, J. A. Roberts, G. W. Roberts OBE, P. S. Rogers, E. Schofield, H. W. Thomas.
**Cyfanswm: 23**

**Atal pleidlais:** Y Cynghorydd G. O. Jones **Cyfanswm: 1**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd R. Llewelyn Jones yn Is-Gadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn am 2011/12.**

Diolchodd y Cynghorydd R. Ll. Jones i'r aelodau am eu hyder ynddo a diolchodd i'r aelodau am eu geiriau caredig. Mynegodd ei fwriad i gydweithredu gyda'r Cadeirydd oedd newydd ei ethol ac i'w gefnogi yn ei waith.

Cymerodd Arweinydd y Cyngor ac Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol y cyfle i longyfarch y Cynghorydd R. Ll. Jones ar yr anrhydedd o gael ei benodi'n Is-Gadeirydd y Cyngor Sir.

**3 PENODI ARWEINYDD Y CYNGOR**

Cynigiodd y Cynghorydd G. W. Roberts OBE bod y Cynghorydd Bryan Owen yn cael ei benodi fel Arweinydd y Cyngor Sir. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd O. Glyn Jones.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Bryan Owen yn Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn tan yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf ym Mai 2012.**

Diolchodd y Cynghorydd Owen i'r Cyngor am yr anrhydedd o gael ei benodi'n Arweinydd y Cyngor Sir. Unwaith yn rhagor manteisiodd ar y cyfle i longyfarch Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor yn dilyn eu penodiad heddiw a diolchodd i Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol am eu cydweithrediad.

**4 CYHOEDDIADAU**

Achubodd y Cynghorydd R. Ll. Hughes y cyfle i gyfeirio at y ffaith y byddai'r cyn Gynghorydd Bwrdeistref Mrs Mary Augusta Edwards yn 100 oed y mis Awst hwn. Roedd wedi gwasanaethu am dros 40 mlynedd ar yr hen Gynghorau Bwrdeistref a Rhanbarth ac roedd yn parhau i wasanaethu fel Llywodraethwr yn Ysgol Bodorgan. Roedd y Cynghorydd Hughes yn tybio mai hi oedd y Llywodraethwr Ysgol hynaf ym Môn, yng Nghymru ac efallai drwy'r DU. Gofynnodd i'r Cadeirydd wneud trefniadau priodol i ddathlu ei phen-blwydd y mis Awst hwn.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cydymffurfio gyda'r cais mewn ymgynghoriad gyda'r Cynghorydd R. Ll. Hughes.

## 5 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Dim i'w datgan.

## 6 DIRPRWYO GAN YR ARWEINYDD / AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Owen nad oedd mewn sefyllfa i enwi'r aelodau yr oedd wedi'u dewis i wasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith heddiw ond y byddai'n gwneud hynny dros yr ychydig ddyddiau nesaf.

Roedd y Cynghorydd C. Ll. Everett yn dymuno iddo gael ei nodi ei fod yn parhau i fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith cysgodol hyd nes y byddai'n clywed i'r gwrthwyneb. Roedd hyn yn golygu mai'r cyfarfod nesaf y byddai'n bresennol ynddo i gynrychioli ei Ward fyddai'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor Sir ar 13 Medi 2011. Roedd yn credu ei fod yn hollol ddifreintiedig fel aelod o'r Cyngor ar hyn o bryd gan na fedrai wasanaethu ar unrhyw Bwyllgor arall fel y Pwyllgor Sgriwtini. Os nad oedd yna gyfarfod o'r Cyngor ar 13 Medi byddai'n torri'r rheol 6 mis oni bai ei fod yn mynychu cyfarfod o gorff allanol. Roedd yn credu bod angen rhoi sylw i'r mater a holodd a fyddai'r Pwyllgor Gwaith cysgodol yn gweithio o gwbl gyda'r Comisiynwyr? Nid oedd yr un o'r Comisiynwyr wedi siarad gydag ef ynglŷn â'i gyn Bortffolio ac yr oedd yn teimlo ei fod wedi ei rwystro rhag siarad ar unrhyw faterion yr oedd yn dechnegol yn gyfrifol amdanynt.

Wrth ateb, dywedodd y Prif Weithredwr dros dro bod yn rhaid i'r Cyngor o dan y ddeddfwriaeth, benodi Pwyllgor Gwaith er bod y Comisiynwyr wedi cymryd drosodd ei gyfrifoldebau. Roedd cyfarfodydd y Bwrdd Comisiynwyr yn gyfarfodydd cyhoeddus ac roedd yn agored i unrhyw aelod ofyn cwestiwn neu geisio cael caniatâd i siarad ar yr amod bod rhybudd wedi cael ei roi ymlaen llaw. Roedd yn gobeithio y byddai yna gyfle ar ôl heddiw i drafod sut y gallai'r Pwyllgor Gwaith cysgodol helpu'r Comisiynwyr yn eu rôl. Roedd yn bwysig i'r Pwyllgor Gwaith cysgodol fedru tracio eu Portffolios unigol yn ystod y flwyddyn gyda'r nod o sicrhau trosglwyddiad llyfn o bŵer unwaith y deuai ymyrraeth y Gweinidog i ben.

Gofynnodd y Cynghorwyr A. Morris Jones a G. W. Roberts OBE am i drafodaethau pellach gael eu cynnal rhwng Cadeirydd y Cyngor Sir, y Prif Weithredwr Dros Dro a'r Comisiynwyr ynglŷn â bwriadau'r Comisiynwyr i wneud defnydd o ystafell yr Arweinydd ar gyfer eu gwaith. Roedd y ddau aelod yn ystyried ei bod yn bwysig i ddelwedd y Cyngor bod y cyfleusterau hynny'n cael eu cadw ar gyfer defnydd yr Arweinydd, y Pwyllgor Gwaith cysgodol, aelodau eraill ac unrhyw bobl bwysig arall fyddai'n dod i swyddfeydd y Cyngor.

Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro mai bwriad y Comisiynwyr oedd defnyddio'r ystafell i bwrpasau cynnal cyfarfodydd ond yr oedd yn gobeithio, yn yr ysbryd o gydweithredu, y gellid cael cytundeb rhwng y Comisiynwyr a'r aelodau etholedig a'r swyddogion ynglŷn â hyn.

Nododd y Cadeirydd y cais.

## 7 CADARNHAU PWYLLGORAU

Cadarnhaodd y Cadeirydd ailbenodi'r strwythur Pwyllgorau cyfredol fel y cyfeirir at hynny yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol:-

- Pwyllgorau Sgriwtini
- Panel Tâl a Graddfeydd a sefydlwyd gan y Cyngor Sir
- Panel Penodi Pwyllgor Safonau
- Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol
- Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd
- Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig

**8 CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO**

Cadarnhaodd y Cadeirydd y rhannau hynny o'r Cynllun Dirprwyo yr oedd yn rhaid i'r Cyngor, yn unol â'r Cyfansoddiad, gytuno arnynt (fel ym Mharagraff 3.2 o'r Cyfansoddiad).

**9 RHAGLEN O GYFARFODYDD CYFFREDIN Y CYNGOR SIR**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen ganlynol o gyfarfodydd cyffredin y Cyngor am y flwyddyn i ddod:-**

| | | |
|---|---|---|
| **13 Medi 2011** | **-** | **2:00pm** |
| **8 Rhagfyr 2011** | **-** | **2:00pm** |
| **6 Mawrth 2012** | **-** | **2:00pm** |
| **10 Mai 2012** | **-** | **10:30am ac 2:00pm (Cyfarfodydd Blynyddol)** |

Yn dilyn y bleidlais, holodd y Cynghorydd Eric Jones a fyddai'n bosibl galw'r cyfarfodydd o'r Cyngor am 10:00am o ystyried y nifer fawr o eitemau oedd wedi ymddangos ar y rhaglen heddiw?

Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro y byddai'n ystyried y cais mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd y Cyngor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 3:40pm**

**Y CYNGHORYDD GWILYM O. JONES**
**CADEIRYDD**